

## SCDSW19

# Gwerthuso canlyniadau ymarfer gwaith cymdeithasol



---

### Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau. Mae'n hawdd esgeuluso gwerthuso pan fydd gorchmynion newydd yn cael eu cyflwyno o hyd, ond mae'n gam hanfodol o ran gwella ymarfer gwaith cymdeithasol a phrofiad pobl ohono yn barhaus. Rhaid i brif ffocws gwerthuso fod ar bobl eu hunain a pha mor dda y maent wedi elwa ar ymyriadau, rheoli risg ac adnoddau. Mae'r safon hon yn mynd i'r afael â'r broses werthuso, gan gynnwys myfyrio personol ac adolygu gwrthrychol gan ddefnyddio safbwyntiau a mesurau gwahanol, gan gynnwys agweddau sefydliadol. Mae'n cydnabod bod rhaid i'r hyn sy'n cael ei ddysgu lywio ymarfer yn y dyfodol ac y gall ddylanwadu ar y proffesiwn ehangach hefyd.

# SCDSW19

## Gwerthuso canlyniadau ymarfer gwaith cymdeithasol

---

### Meini prawf perfformiad

*Mae'n rhaid eich bod chi'n gallu:*

- P1 adolygu canlyniadau bwriadedig ymarfer gwaith cymdeithasol mewn sefyllfaoedd penodol
- P2 dadansoddi gwybodaeth o **amrywiaeth o safbwyntiau** am gynnydd tuag at ganlyniadau
- P3 mewn partneriaeth ag **eraill**, gwerthuso **canlyniadau** ar gyfer unigolion, eu teuluoedd neu gymunedau
- P4 dadansoddi'r canlyniadau ar gyfer eich sefydliad eich hun
- P5 myfyrio ar eich rôl eich hun a'r defnydd ohonoch chi eich hun mewn ymyriadau gwaith cymdeithasol penodol
- P6 mewn partneriaeth ag **eraill**, adolygu cynlluniau ar gyfer ymarfer ac ymyriadau i ystyried gwerthusiadau
- P7 amlygu **gwersi a ddysgwyd** a ddylai lywio eich ymarfer yn y dyfodol a gwaith eich sefydliad
- P8 mynegi sut gall eich gwerthusiadau chi gyfrannu at ddatblygu gwaith cymdeithasol fel proffesiwn

# SCDSW19

## Gwerthuso canlyniadau ymarfer gwaith cymdeithasol

---

### Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

- K1 deddfwriaeth ryngwladol, ei pherthynas â **pholisïau**'r DU ac ymarfer gwaith cymdeithasol
- K2 deddfwriaeth y DU, ei pherthynas â **pholisïau** cenedlaethol ac ymarfer gwaith cymdeithasol
- K3 deddfwriaeth genedlaethol, ei pherthynas â **pholisïau** ac ymarfer gwaith cymdeithasol
- K4 codau, safonau, fframweithiau ac arweiniad statudol a phroffesiynol; eu perthynas â pholisi ac ymarfer gwaith cymdeithasol
- K5 nodweddion y wlad gartref, ei hiaith, diwylliant, daearyddiaeth ac arferion
- K6 damcaniaethau sy'n tanategu ein dealltwriaeth o ddatblygiad dynol a'r ffactorau sy'n effeithio arno
- K7 damcaniaethau sy'n tanategu ein dealltwriaeth o faterion cymdeithasol o safbwyntiau seicolegol, cymdeithasegol a throseddol
- K8 damcaniaethau gwahaniaethu mewn cymdeithas gyfoes
- K9 beirniadaethau ar sail damcaniaethau ac ymchwil ar y berthynas rhwng deddfwriaeth, **polisïau** ac ymarfer gwaith cymdeithasol
- K10 gwaith cymdeithasol fel proffesiwn, gan gynnwys adroddiadau hanesyddol a materion cyfoes
- K11 natur, rôl a gorchymyn y berthynas gwaith cymdeithasol, gan gynnwys ffiniau proffesiynol a moesegol
- K12 egwyddorion, damcaniaethau, dulliau a modelau o ymyriad ac ymarfer gwaith cymdeithasol
- K13 **ffactorau** sy'n gyffredinol yn cael eu cysylltu ag ymglymiad gwaith cymdeithasol
- K14 tueddiadau demograffig a chymdeithasol
- K15 eich cefndir, profiadau ac arferion eich hun a all effeithio ar eich ymarfer gwaith cymdeithasol
- K16 egwyddorion asesu risg a rheoli risg
- K17 egwyddorion cymryd risg yn gadarnhaol
- K18 technegau datrys problemau a meddwl arloesol
- K19 egwyddorion rheoli gwrthdaro
- K20 natur gwrthdaro ac effaith ôl-gwrthdaro ar y gymdeithas
- K21 gweithio yn eich sefydliad: egwyddorion, gweithdrefnau ac ymarferion proffesiynol
- K22 offer a fframweithiau asesu a chynllunio
- K23 cyd-destun diwylliannol ac ieithyddol yr unigolyn, y teulu, y grŵp neu'r gymuned

## SCDSW19

### Gwerthuso canlyniadau ymarfer gwaith cymdeithasol

---

- K24 egwyddorion gweithio mewn partneriaeth ag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau
- K25 gweithdrefnau amlddisgyblaethol a sefydliadol lleol ar gyfer ymchwilio i niwed neu gamdriniaeth
- K26 dangosyddion niwed neu gamdriniaeth posibl
- K27 dangosyddion gelyniaeth, gwrthwynebiad neu ddiffyg cydymffurfio cudd
- K28 grym a chyfrifoldebau cyfreithiol a statudol y gellir eu defnyddio er mwyn diogelu unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau
- K29 potensial unigolion i ddefnyddio eu cryfderau a'u hadnoddau personol i gyflawni newid
- K30 gwerth a rôl rhwydweithiau teuluol, cymunedau a grwpiau o ran cyflawni canlyniadau cadarnhaol, a ffyrdd i'w datblygu
- K31 natur personoli a gwasanaethau wedi'u personoli, gan gynnwys cymorth hunangyfeiriol; a rôl y gweithiwr cymdeithasol mewn perthynas â'r rhain yng nghyd-destun polisi cenedlaethol
- K32 sut i fynegi gwybodaeth ysgrifenedig yn gywir, yn eglur, yn berthnasol ac â lefel briodol o fanylion
- K33 gofynion cyfreithiol a sefydliadol ar gyfer cofnodi gwybodaeth a llunio adroddiadau
- K34 gofynion cyfreithiol, polisiau a gweithdrefnau ar gyfer diogelwch a chyfrinachedd gwybodaeth
- K35 egwyddorion ymarfer myfyriol, meddwl beirniadol a dysgu
- K36 ffynonellau o adborth a all lywio myfyrio ar ymarfer a meddwl beirniadol

### Gwybodaeth Ychwanegol

#### Cwmpas/ystod

Ymarfer gwaith cymdeithasol gydag unigolion, teuluoedd, gofawyr, grwpiau a chymunedau, mewn ystod eang o gyd-destunau, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol statudol ac anstatudol, datblygu cymunedol, cyfiawnder troseddol a lles addysgol

#### Cwmpas/ystod sy'n gysylltiedig â meini prawf perfformiad

Gall **amrywiaeth o safbwyntiau** gynnwys barn unigolion, teuluoedd, gofawyr, grwpiau a chymunedau; barn cydweithwyr proffesiynol yn eich asiantaeth chi neu asiantaethau eraill; gwybodaeth o weithgareddau monitro; ymchwil  
Gall **canlyniadau** fod yn fwriadol neu'n anfwriadol, gallant gael eu croesawu neu beidio â chael eu croesawu.

Gall **gwersi a ddysgwyd** gynnwys bylchau mewn darpariaeth; methiannau mewn ansawdd neu gydymffurfiaeth; ymagweddau arloesol; ymyriadau effeithiol

#### Cwmpas/ystod sy'n gysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

Gall **polisiau** gynnwys rhai sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol, diogelu, ail-leoli/atgyfannu yn y gymuned, cyfiawnder troseddol, mudo a cheisio lloches, addysg, iechyd, tai, budd-daliadau lles, amrywiaeth, gwahaniaethu a hybu annibyniaeth ac ymreolaeth oedolion, plant, teuluoedd, grwpiau a chymunedau  
Gall **ffactorau** gynnwys camddefnyddio sylweddau; iechyd meddwl; eiddilwch; salwch corfforol; anabledd corfforol; anabledd dysgu; anghenion synhwyraidd; mudo a cheisio lloches; tlodi; oedolion neu blant mewn perygl o niwed neu gamdriniaeth; plant mewn angen; anawsterau sy'n ymwneud ag addysg; statws grŵp ethnig neu grŵp lleiafrifol arall; ymddygiad troseddol; diogelu'r cyhoedd

# SCDSW19

## Gwerthuso canlyniadau ymarfer gwaith cymdeithasol

---

### Gwerthoedd

Glynu wrth y codau ymarfer rheoleiddiol sy'n gymwys i weithwyr cymdeithasol, a'r gwerthoedd sydd wedi cael eu mewnosod ynddynt

### Sgiliau

- 1 Cynllunio camau gweithredu i gyflawni canlyniadau canfyddedig
- 2 Rheoli galw ar eich amser eich hun i flaenoriaethu'r hyn sy'n bwysig, yn ogystal â'r hyn sydd angen ei wneud ar frys
- 3 Cyfathrebu mewn modd agored, cywir a dealladwy
- 4 Addasu cyfathrebu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd
- 5 Hwyluso defnydd pob unigolyn o iaith a dull cyfathrebu dewisol
- 6 Gweithio'n effeithiol gyda'r rheiny sydd â safbwyntiau neu werthoedd sy'n gwrthdaro â'ch rhai chi
- 7 Cymhwyso meddwl beirniadol i wybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau
- 8 Dadansoddi a chyfosod gwybodaeth gymhleth
- 9 Llunio barn broffesiynol ynghylch sefyllfaoedd cymhleth
- 10 Cymhwyso ymagweddau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- 11 Cydbwysu canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn â lles pobl eraill
- 12 Llunio cofnodion ac adroddiadau sy'n bodloni safonau proffesiynol
- 13 Cael mynediad at systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a'u defnyddio i gasglu, storio a lledaenu gwybodaeth
- 14 Cael mynediad at oruchwyliaeth a chymorth proffesiynol a'u defnyddio mewn sefyllfaoedd y tu hwnt i'ch gwybodaeth neu'ch profiad chi
- 15 Cymhwyso meddwl beirniadol er mwyn myfyrio ar eich ymarfer eich hun
- 16 Cyfosod gwybodaeth ac ymarfer

### Cysylltiadau â SGC eraill

Mae'r SGC hon yn cysylltu'n agos â phob SGC Gwaith Cymdeithasol arall

### Cysylltiadau Allanol

Mae'r SGC hon yn cysylltu â chodau ymarfer rheoleiddiol sy'n berthnasol i weithwyr cymdeithasol.

# SCDSW19

## Gwerthuso canlyniadau ymarfer gwaith cymdeithasol

---

**Datblygwyd gan** Sgiliau Gofal a Datblygu

---

**Rhif y fersiwn** 1

---

**Dyddiad cymeradwyo** HYDREF 2011

---

**Dyddiad adolygu mynegol** EBRILL 2014

---

**Dilysrwydd** CYFREDOL

---

**Statws** GWREIDDIOL

---

**Sefydliad gwreiddiol** Sgiliau Gofal a Datblygu

---

**URN gwreiddiol** SW19

---

**Galwedigaethau perthnasol** Gweithiwr Cymdeithasol

---

**Cyfes** GWAITH CYMDEITHASOL

---

**Allweddeiriau** GWAITH CYMDEITHASOL; YMARFER; GWYBODAETH; TYSTIOLAETH